# Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Dawns – Fersiwn Ymgynghori



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

## Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r Cymhwyster CBAC TGAU Dawns arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

## Trosolwg o'r Cymhwyster

Bydd y cymhwyster TGAU Dawns yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud y canlynol:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1], gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - archwilio eu gwaith creadigol eu hunain a gwaith eraill, mynd i'r afael â genres, technegau, offer, deunyddiau ac arferion a'u galluogi i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol
  - archwilio eu hetifeddiaeth ddiwylliannol eu hunain yn ogystal â rhai pobl, llefydd a chyfnodau eraill. Trwy hyn gallan nhw ddarganfod sut y gellir defnyddio'r celfyddydau mynegiannol i ffurfio a mynegi hunaniaeth bersonol, gymdeithasol a diwylliannol
  - dysgu sut y gall sgiliau dadansoddi pwysig o fireinio a dadansoddi gyfrannu at eu datblygiad creadigol.

- Cefnogi'r egwyddorion cynnydd[2] drwy annog dysgwyr i:
  - archwilio, profi, dehongli, creu ac ymateb drwy ddawns mewn amgylchedd diogel
  - gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill
  - dysgu a mireinio gwahanol fathau o wybodaeth a sgiliau, gan gynnwys y technegau, y prosesau a'r sgiliau sydd eu hangen i greu a dehongli
  - dysgu a mireinio gwahanol fathau o wybodaeth a sgiliau, gan gynnwys y technegau, y prosesau a'r sgiliau sydd eu hangen i greu a dehongli
  - dangos defnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol a'r gallu i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau newydd.

- Cefnogi'r ystyriaethau pwnc-benodol ar gyfer y maes hwn[3] drwy roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
  - archwilio, ymateb i ysgogiadau a chreu ac adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain. Ar yr un pryd, byddant hefyd yn ymwneud â phrofiadau sy'n gyfoethog ac yn ddilys
  - meithrin dealltwriaeth o berfformio, coreograffi a gwerthfawrogiad ar draws ystod o arddulliau.

[1] Celfyddydau Mynegiannol: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb (llyw.cymru)
[2] Celfyddydau Mynegiannol: Egwyddorion cynnydd - Hwb (llyw.cymru)
[3] Celfyddydau Mynegiannol: Cynllunio eich cwricwlwm - Hwb (llyw.cymru)



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

## Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

| |
|---|
| **Uned 1: Coreograffi**<br>Asesiad ymarferol a log myfyriol<br>40% o'r cymhwyster<br>Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC |
| **Uned 2: Perfformiad**<br>Asesiad ymarferol<br>30% o'r cymhwyster<br>Wedi'i farcio gan arholwr ymweld |
| **Uned 3: Dehongli Dawns**<br>Arholiad ysgrifenedig<br>30% o'r cymhwyster<br>Arholiad digidol yn unig, wedi'i farcio gan CBAC |

Dyma'r canrannau arfaethedig ar gyfer y 4 amcan asesu:

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | Dangos a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o berfformiadau a phrosesau coreograffig. | 20% |
| **AA2** | Datblygu a defnyddio sgiliau technegol a pherfformio. | 30% |
| **AA3** | Dadansoddi, gwerthuso ac adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. | 15% |
| **AA4** | Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr mewn coreograffi. | 35% |

Cymhwyster llinol fydd hwn. Gellid cwblhau Uned 1 ar unrhyw bryd yn ystod y ddwy flynedd ar ôl i'r addysgu a'r dysgu gofynnol gael eu cwblhau a'i chyflwyno i CBAC ym mlwyddyn olaf y cwrs. Byddai Uned 2 ac Uned 3 yn cael eu cwblhau ym mlwyddyn olaf y cwrs.

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Gwybodaeth am Unedau

### Uned 1 – Coreograffi

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- datblygu ymwybyddiaeth o'r broses goreograffig o greu dawns
- datblygu sgiliau dysgwyr o ran hunanwerthuso, mireinio a datblygu eu gwaith eu hunain
- datblygu ymdeimlad o goreograffu at bwrpas penodol
- ysbrydoli dysgwyr i archwilio coreograffi o arddulliau/genres, cyfnodau/cyd-destunau amrywiol ac sy'n gysylltiedig â diwylliannau gwahanol yng Nghymru a'r byd.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio dawns a gaiff ei chreu a'i pherfformio gan bobl eraill a datblygu eu sgiliau coreograffi eu hunain mewn dawns.

- **creu** – bydd dysgwyr yn creu eu dawns wreiddiol eu hunain mewn arddull o'u dewis, mewn ymateb i friff a fydd wedi'i bennu gan CBAC. Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu sgiliau creadigol drwy arbrofi gyda choreograffi ac ymchwilio iddo, mewn ymateb i ystod eang o ysgogiadau er mwyn cyfleu ystyr.

- **ymateb ac adfyfyrio –** bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso a mireinio eu gwaith drwy fyfyrio. Gallant ddefnyddio adborth gan bobl eraill i greu cynnyrch gorffenedig llwyddiannus.

Defnyddir asesiad di-arholiad ymarferol a log myfyriol i asesu'r uned hon. Cyflwynir y rhain ym mlwyddyn olaf y cwrs. Rhaid cyflwyno'r asesiad di-arholiad yn ddigidol. Bydd cymysgedd y tasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA3 ac AA4. Bydd pwysoli uwch am AA4, wedi'i ddilyn gan AA3. CBAC fydd yn gosod yr ysgogiadau ar gyfer yr asesiad di-arholiad. Bydd y dysgwyr yn cael dewis o ran pa ysgogiad i'w ddewis o'r rhai a osodwyd gan CBAC. Gallant ddewis a fyddant yn perfformio yn y darn y byddant yn ei goreograffu. Rhagwelir y bydd yr ysgogiadau ar gael ym mis Medi ar ddechrau'r cwrs. Y ganolfan fydd yn marcio'r uned a CBAC yn ei chymedroli. Cynhelir yr asesiad ymarferol dan lefel uchel o reolaeth a'r log myfyriol dan lefel isel o reolaeth.

Mae amser y perfformiad yn debygol o fod fel a ganlyn:

- Perfformiad unigol: 1 munud - 1 munud 30 eiliad
- Grŵp o 2-5 dawnsiwr: 2-4 munud



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

## Uned 2 – Perfformiad

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- ysbrydoli dysgwyr i archwilio repertoire dawns amrywiol a darparu cyfleoedd i ddewis darnau yr hoffent eu perfformio o arddulliau/genres, cyfnodau/cyd-destunau amrywiol ac sy'n gysylltiedig â diwylliannau gwahanol yng Nghymru a'r byd
- caniatáu i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau technegol a pherfformio drwy adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain mewn cylchred barhaus o ymarfer a gwella
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr berfformio'n unigol ac fel rhan o grŵp, a datblygu'r sgiliau sy'n ofynnol i ddod yn hyfedrus
- darparu cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau personol hunanwerthuso, gwydnwch, penderfynoldeb a hyder.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio dawns a gaiff ei chreu a'i pherfformio gan bobl eraill a datblygu eu sgiliau eu hunain mewn dawns.

- **perfformio** – bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau corfforol, technegol a mynegiannol i ddehongli a chyfleu bwriad coreograffig a dangos rheolaeth.

Asesir yr uned drwy asesiad di-arholiad ymarferol. Rhaid gwneud yr uned hon ym mlwyddyn olaf y cwrs. Oherwydd natur ymarferol yr uned hon, bydd y tasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA2. Bydd arholwr sy'n ymweld yn marcio'r asesiad di-arholiad yn allanol.

Bydd dysgwyr yn dewis ac yn perfformio dau ddarn cyferbyniol. Bydd gan ddysgwyr y dewis a'r hyblygrwydd i ddewis eu darnau i'w perfformio ar gyfer yr uned hon, ond ni ddylai dysgwyr berfformio darn o'r gweithiau gosod a ddewisir gan y ganolfan ar gyfer Uned 3. Rhaid i un perfformiad fod yn berfformiad unigol a gall yr ail berfformiad fod yn unigol neu fel rhan o grŵp. Mae amser y perfformiad yn debygol o fod fel a ganlyn:

- Perfformiad unigol: 1 munud - 1 munud 30 eiliad
- Grŵp o 2-5 dawnsiwr: 2-4 munud

Wrth berfformio mewn grŵp, rhaid i bob dawnsiwr fod yn rhan weithredol o'r perfformiad am o leiaf un munud.

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Uned 3 – Dehongli Dawns

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae dawns yn cael ei datblygu, ei choreograffu a'i pherfformio drwy gyd-destun gweithiau gosod a gwaith nad yw wedi'i weld
- archwilio dawns broffesiynol o arddulliau/genres, cyfnodau/cyd-destunau amrywiol ac sy'n gysylltiedig â diwylliannau gwahanol yng Nghymru a'r byd
- datblygu iaith ddisgrifio a dadansoddi dawns
- datblygu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o sut mae ystyr yn cael ei gyfleu drwy ddawns.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio dawns a gaiff ei chreu a'i pherfformio gan bobl eraill
- **ymateb ac adfyfyrio** – bydd dysgwyr yn gallu ystyried gwaith dawns eraill a gwerthuso effeithiolrwydd syniadau a thechnegau a gaiff eu defnyddio i gyfleu ystyr. Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o amrywiaeth o ffurfiau, genres, arddulliau, technegau, cyd-destunau a dulliau o gyflwyno dawns.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad digidol a fydd ar gael yng nghyfres yr haf ym mlwyddyn olaf yr astudio. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1 ac AA3. Bydd y pwysoli uwch am AA1, wedi'i ddilyn gan AA3. Bydd CBAC yn gosod dewis o waith gosod a gwaith nad yw wedi'i weld. Bydd canolfannau yn dewis dau ddarn o waith gosod. Bydd y gwaith gosod yn cynnwys gwaith: o arddulliau/genres cyferbyniol; o gyfnodau cyferbyniol; sydd wedi'u creu yng Nghymru neu wedi'u hysbrydoli gan Gymru; sydd wedi'u hysgrifennu gan amrediad amrywiol o awduron gan gynnwys o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Mae'n debygol y bydd yr arholiad tua 1 awr 45 munud o hyd, ond bydd angen ystyried hyn ymhellach. Mae angen meddwl a ellid caniatáu i ddysgwyr ailchwarae darnau er mwyn ateb y cwestiynau ac mae hynny wedyn yn berthnasol i hydrinedd o ran y dysgwyr a'r canolfannau. Bydd enghreifftiau gweledol yn rhan o rai cwestiynau.

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd

Wrth ddatblygu'r amlinelliad arfaethedig hwn o'r cymhwyster, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd, a hefyd sut i gydbwyso'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo, mae angen asesu 70% o'r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad a gaiff ei osod gan CBAC. Caiff yr asesiad ei gynnal ym mlwyddyn olaf y cwrs. Gallai hyn achosi rhai heriau o ran hydrinedd i'r canolfannau a dysgwyr. Bwriadwn geisio lleihau hyn i'r eithaf drwy ledaenu'r llwyth gwaith a'r asesiad i'r canolfannau ac i'r dysgwyr. Gan fod y Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi ei bod yn ofynnol i'r cymhwyster fod yn llinol, mae hyn yn golygu bod rhai cyfyngiadau. Bwriadwn felly ddarparu asesiad Uned 1 ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn gyntaf yr astudio i'w gyflwyno i CBAC ym mlwyddyn olaf yr astudio. Dim ond pan fydd yr addysgu a'r dysgu gofynnol wedi'u cwblhau a bod y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ofynnol wedi'u datblygu y dylid cynnal asesiad Uned 1. Bydd Uned 2 yn cael ei hasesu yn nhymor y gwanwyn ym mlwyddyn olaf yr astudio,  gan olygu y bydd modd asesu dysgwyr ar ôl iddynt gwblhau'r addysgu a'r dysgu perthnasol ar gyfer yr uned. Bydd 30% o'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy asesiad di-arholiad. Bydd yn cael ei farcio gan arholwr sy'n ymweld a dylai gynorthwyo hydrinedd i ganolfannau.

Er ein bod yn cydnabod bod hyn yn effeithio ar hydrinedd, daethpwyd i'r casgliad bod lefel uchel o reolaeth yn hanfodol ar gyfer elfennau o'r naill asesiad di-arholiad a'r llall er mwyn sicrhau gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo. Yn ôl y gofynion hyn, mae dysgwyr yn gwireddu eu bwriadau artistig mewn perfformiad byw ac yn defnyddio amrywiaeth o sgiliau perfformio i ddangos rheolaeth, gan sicrhau tegwch i bob dysgwr. Argymhellwn fod y log myfyriol yn cael ei gwblhau dan lefel isel o reolaeth. Credwn y bydd cynnal yr elfen hon dan lefel isel o reolaeth yn helpu o ran hydrinedd i'r canolfannau ac yn gweithio fel ffordd ddilys o fodloni gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer dysgwyr er mwyn dangos eu bod yn deall y broses greadigol ac yn ei gwerthuso'n feirniadol.

Bydd hyblygrwydd o ran fformat y log myfyriol yn Uned 1. Drwy fod yn hyblyg fel hyn, bydd mwy o hydrinedd i'r ganolfan. Gallan nhw ddewis y fformat neu amrediad o fformatau sydd fwyaf addas i'w dysgwyr o ran yr adnoddau sydd ar gael iddyn nhw.

Credwn y dylai ein cymhwyster arfaethedig ddarparu cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio sy'n ennyn diddordeb eu dysgwyr, yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Ar gyfer Uned 1, bydd amrediad o ysgogiadau o safbwyntiau amrywiol ar gael a fydd yn caniatáu i ddysgwyr archwilio safbwynt lleol, cenedlaethol neu ryngwladol. Bydd yr ysgogiadau hyn yn helpu'r dysgwyr i ymgysylltu, gan hwyluso'r cyfle i greu gwaith sy'n berthnasol, yn ddeniadol ac yn greadigol.

Credwn y bydd yr hyblygrwydd i ddewis darnau i'w perfformio a natur ymarferol y tasgau ar gyfer y gydran berfformio (Uned 2) yn helpu i wneud yr asesiad yn fwy deniadol i ddysgwyr. Byddant wedyn yn gallu dangos a defnyddio eu sgiliau mewn cyd-destunau ystyrlon ac yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd sicrhau nad yw dysgwyr yn perfformio darn o'r gweithiau gosod a ddewisir gan y ganolfan ar gyfer Uned 3 a nodi bod yn rhaid cael darnau cyferbyniol yn helpu i sicrhau ystod ehangach o brofiad, gwybodaeth a dealltwriaeth i ddysgwyr.

Bydd y cyfle i ddewis gwaith gosod o amrywiaeth o arddulliau/genres, cyfnodau/cyd-destunau â safbwyntiau amrywiol yn diddori dysgwyr, gan eu caniatáu i archwilio safbwynt lleol, cenedlaethol neu ryngwladol. Bydd ysgogiad gweledol yn cael ei ymgorffori i'r arholiad digidol, gan helpu i ennyn diddordeb dysgwyr a'u caniatáu i gael eu hasesu mewn cyd-destun ystyrlon a pherthnasol.


© WJEC CBAC Ltd 2024.

Credwn fod y tasgau asesu di-arholiad a fwriadwn ar gyfer yr unedau coreograffi a pherfformio (Unedau 1 a 2) yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys. Maen nhw'n cynnig y cyfle i fyfyrwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol. Er mwyn sicrhau bod asesiad di-arholiad Uned 1 yn ddibynadwy, byddwn yn sicrhau y bydd yr uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu ym mhob cyfres arholiadau. Datblygir meini prawf marcio a bydd pecyn o gefnogaeth ar gael i athrawon a fydd yn sicrhau bod y meini prawf marcio'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws canolfannau ac ym mhob cyfres. Byddwn yn cymedroli sampl o waith y ganolfan fel ffordd ychwanegol o sicrhau dibynadwyedd. Yn yr un modd yn Uned 2, byddwn yn sicrhau y bydd yr uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran yr amcanion asesu bob blwyddyn, bydd meini prawf marcio'n cael eu datblygu a bydd arholwyr yn derbyn hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cymhwyso'r meini prawf marcio'n gyson ar draws canolfannau ac ym mhob cyfres.

Credwn fod modd asesu pwrpas a chynnwys Uned 3 yn ddilys drwy arholiad, a gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i'w gwneud mor ddilys â phosibl. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, eu bod yn gytbwys o ran y cynnwys yr ymdrinnir ag ef dros amser a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr unedau a arholir yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd rhwng hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

# ATODIAD

## Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Dawns Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

### Diben

1. Rhaid i'r **TGAU Dawns**:
1.1 gael ei ddylunio'n bennaf ar gyfer Dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed
1.2 adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae Dysgwyr wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
1.3 cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy’n briodol eang, heriol, perthnasol a gafaelgar ac sy'n cysylltu â’r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
1.4 galluogi Dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
1.5 darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad Dysgwyr mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae Dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud.

### Nodau

2. Rhaid i'r **TGAU Dawns:**
2.1 ganiatáu i Ddysgwyr archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â dawns
2.2. darparu cyfleoedd i Ddysgwyr gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon.

3. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Dawns** gefnogi Dysgwyr i:
3.1. archwilio dawns sydd wedi'i chreu a'i pherfformio gan bobl eraill a datblygu eu talentau dawns eu hunain
3.2. meithrin dealltwriaeth o amrywiaeth o ffurfiau, genres, arddulliau, technegau, cyd-destunau a ffyrdd o gynrychioli dawns, yn ogystal ag elfennau dawns
3.3. datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o sut mae ystyr yn cael ei gyfathrebu trwy ddawns
3.4. ymateb i waith dawns gan eraill ac adfyfyrio arno, gan gymhwyso gwybodaeth am gyd-destun i werthuso effeithiolrwydd y syniadau a’r technegau a ddefnyddiwyd i gyfleu ystyr
3.5. datblygu sgiliau corfforol, technegol a mynegiannol i ddehongli a chyfleu bwriad coreograffig a dangos rheolaeth
3.6. datblygu sgiliau creadigol drwy arbrofi gyda choreograffi ac ymchwilio iddo, mewn ymateb i ystod eang o ysgogiadau er mwyn cyfleu ystyr
3.7. adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, ei fireinio a’i werthuso
3.8. archwilio themâu trawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

Amcanion asesu

9. Yn yr asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y cymhwyster, rhaid targedu'r amcanion asesu canlynol i gyfateb i'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | **Dangos a defnyddio gwybodaeth** a dealltwriaeth o berfformiadau a phrosesau coreograffig. | 15% |
| **AA2** | **Datblygu a defnyddio** sgiliau technegol a pherfformio. | 30% |
| **AA3** | **Dadansoddi, gwerthuso ac adfyfyrio** ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. | 15% |
| **AA4** | **Creu a datblygu** syniadau i gyfleu ystyr mewn coreograffi. | 40% |

## Cynllun asesu

10. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Dawns** fod yn llinol.

11. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Dawns** ddangos cyfran y marciau (wedi'u pwysoli a/neu'n grai) a ddyrennir i bob amcan asesu ac i bob *Cydran*.

12. Rhaid i'r fanyleb **TGAU Dawns** gynnwys y trefniadau asesu a ganlyn
:
   12.1. bydd cyfanswm o 30% o'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy arholiad digidol yn unig y mae'n rhaid iddo:
   12.1.1. gael ei osod a'i farcio gan y corff dyfarnu
   12.1.2. cynnwys cwestiynau ar y gwaith a osodwyd gan y corff dyfarnu yn ogystal â gwaith heb ei baratoi
   12.1.3 cynnwys recordiadau o waith proffesiynol a'i gwneud yn ofynnol i'r *Dysgwyr* eu hadolygu ac ymateb iddynt
   12.2. dros oes y cymhwyster, rhaid i'r arholiad(au) allanol asesu *Dysgwyr* ar ddawns:
   12.2.1. o arddulliau/genres cyferbyniol
   12.2.2. o gyfnodau/cyd-destunau cyferbyniol
   12.2.3. sydd wedi'u creu yng Nghymru neu wedi'u hysbrydoli gan Gymru
   12.2.4. sydd wedi'u creu gan amrywiaeth amrywiol o goreograffwyr, gan gynnwys y rhai o
   gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
   12.3 rhaid i amseriad yr arholiadau gael ei osod gan y corff dyfarnu
   12.4. rhaid asesu cyfanswm o 70% o'r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad ymarferol – rhaid i'r asesiad di-arholiad:
   12.4.1. gael ei asesu yn ystod blwyddyn olaf y cwrs
   12.4.2. caniatáu i *Ddysgwyr* berfformio a choreograffu yn arddull(iau) o'u dewis
   12.4.3. cynnwys uned berfformio sy'n werth 30% o'r cymhwyster
   12.4.4. cael ei osod a'i farcio gan y corff dyfarnu
   12.4.5. cael ei farcio'n allanol (uned berfformio) gan arholwr sy'n ymweld


© WJEC CBAC Ltd 2024.
DRAFT

12.4.6. cynnwys uned goreograffi sy'n werth 40% o'r cymhwyster a gaiff ei gosod gan y corff dyfarnu, ei marcio gan y *Ganolfan*, a'i *chymedroli* gan y corff dyfarnu

12.4.7. cael ei gyflwyno'n ddigidol – lle bo hynny'n briodol

12.5. fel rhan o'r uned goreograffi, rhaid i *Ddysgwyr* gyflwyno log myfyriol mewn fformat nad yw'n cael ei ragnodi; bydd hyn yn orfodol i gyrraedd yr ystod lawn o farciau. Rhaid i'r log myfyriol:

12.5.1. fod yn werth dim llai na 2% a dim mwy na 5% o’r cymhwyster cyfan

12.5.2. fod yn werth nifer penodol o'r marciau sydd ar gael

12.5.3. gallu cael ei gyflwyno'n ddigidol.

13. Rhaid i'r corff dyfarnu osod y gofynion sylfaenol ar gyfer log myfyriol derbyniol.

14. Rhaid i'r corff dyfarnu osod meini prawf sy'n gwahaniaethu'n gywir ac yn gyson rhwng log myfyriol boddhaol ac anfoddhaol.

15. Rhaid i'r corff dyfarnu nodi ei reolau o ran ailsefyll ac ailgyflwyno ar gyfer **TGAU Dawns** yn unol â'r *Amodau a Gofynion ar gyfer TGAU Cenedlaethol.*

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.